Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Rheoliadau Gofal yn y Gymuned, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) Diwygio 2006

Ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 5 Gorffennaf 2006. Fe'u hystyriwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, sef bod yr Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ymholiadau ynghylch y Gorchymyn neu ddiwygiadau y maent am eu gwneud iddo.

Ni chynigiwyd unrhyw welliannau, ond cododd Helen Mary Jones bedwar pwynt o eglurhad.

i.) A wnaiff y Gweinidog nodi pa ddeunydd hyrwyddo fydd ar gael gyda'r rheoliadau hyn er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r ffaith bod taliadau uniongyrchol ar gael?

Ymatebodd y Gweinidog fod nifer o asiantaethau yn gysylltiedig â'r broses o hyrwyddo a rhoi cyngor ar daliadau uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau bod £800,000 ar gael i gynorthwyo â'r gwaith hyrwyddo ar lefel leol.

ii.) Pa ganllawiau fydd ar gael i sicrhau bod deunydd darllen ar y taliadau uniongyrchol ar gael i'r cyhoedd mewn fformatau gwahanol?

Cynghorodd y Gweinidog y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod deunydd ar gael mewn fformatau sy'n diwallu anghenion y gymuned leol, fel Braille, print bras ac ieithoedd lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd fod deunydd darllen ar gael mewn Somali, Wrdw a Hindi yng Nghaerdydd.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y Rheoliadau fel yr oeddent wedi eu drafftio.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd